OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2537

# Rheoliadau Cymorthdaliadau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2001

**Adolygu penderfyniadau – Cam 1**

**5.**—(1) Caiff person y mae penderfyniad a grybwyllir yn rheoliad 4 uchod yn cael ei gyfeirio ato, wneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol ymhen heb fod yn hwyrach na 30 diwrnod yn dilyn dyddiad y llythyr yn rhoi gwybod i'r person hwnnw am y penderfyniad i'w adolygu, am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw.

(2) Rhaid i gais am adolygiad fod yn ysgrifenedig ar ffurf a bennwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol a rhaid iddo nodi —

(a) enw a chyfeiriad y ceisydd, ac ar ba sail y ceisir yr adolygiad;

(b) y cynllun cymhorthdal y ceisir yr adolygiad mewn perthynas ag ef a'r flwyddyn IACS y cyfeiriodd y penderfyniad ati;

(c) y penderfyniad sydd i'w adolygu a'i ddyddiad;

(ch) manylion llawn y seiliau y ceisir yr adolygiad arnynt; a

(d) y newid yn y penderfyniad a geisir.

(3) Mae cais o dan y rheoliad hwn i'w drin fel un sydd wedi'i wneud os daw i law'r Cynulliad Cenedlaethol yn y Swyddfa Ranbarthol y gwnaed y penderfyniad gwreiddiol ynddi.